PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 386 | CHWEFROR 2016



Debut Gwawr

t.5



Pont droed arbennig

t.13



Enwebu Caleb am wobr

t.8

# Penodiadau newydd

Ahwythau wedi dathlu 60 mlynedd eu sefydlu yn Rhagfyr y llynedd mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi apwyntio un o Gymry Llundain sy'n siarad Cymraeg fel eu Rheolwr Gyfarwyddwr. Mae teulu Alan Davies yn hanu o Geredigion; dechreuodd ei yrfa yn y Fyddin ac mae wedi byw a gweithio yng Nghaerdydd a'r ardal am dros ugain mlynedd gan sefydlu busnesau yn ne Cymru. Dywedodd "Dwi'n cael fy nghyffroi gan y sialens mae y swydd hon yn ei chynnig. Mae UAC yn unigryw gan ei fod yr unig gorff awdurdodwyd gan Lywodraeth y DU i siarad ar ran ffermwyr Cymru, mae ei haelodau i gyd yn byw yng Nghymru, mae ei chyllideb yn tarddu o Gymru ac wrth gwrs nid ydym yn cael ein dylanwadu gan wneuthurwyr penderfyniadau allanol na chorfforaethol."




Alan Davies



**Llongyfarchiadau i Catryn Lawrence ar ei phenodiad yn Bennaeth Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn**

Mae Catryn Lawrence yn frodor o Ystradgynlais, yng Nghwmtawe. Mynychodd Ysgol Gyfun Ystalyfera cyn astudio gradd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Wedi cyfnod yn addysgu fel tiwtor y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe penderfynodd ddilyn gyrfa fel athrawes a chwblhaodd gwrs TAR yng Ngholeg y Drindod. Bu yn addysgu yn Ysgol Aberaeron ac Ysgol Plas-crug cyn cychwyn ei gyrfa fel Pennaeth yn Ysgol Ceinewydd ac yna Ysgol Llannarth. Yn ei hamser hamdden mae hi'n mwynhau canu gyda Sgarmes a cherdded y ci. Edrycha ymlaen at gychwyn yn Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn ar ôl y Pasg.

Llongyfarchiadau hefyd i Peter Leggett, Penrhyn-coch, ar ei benodi yn Bennaeth newydd Ysgol Rhydypennau

# Amser gwely?



Diwrnod gwisgo onesie Cylch Meithrin Trefeurig, 12 Chwefror, i gefnogi Clefyd Siwgr Math 1- Type 1 diabetes

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth: Deunydd i law: Mawrth 4. Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 16**

**CHWEFROR 17** Nos Fercher Geraint Morgan – Bywyd Fferyllydd Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30.

**CHWEFROR 19** Nos Wener 'Bro fy Mebyd' gyda Brenda, Iestyn a Gruffydd Aled Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**CHWEFROR 24** Nos Fercher Noson yng nghwmni Robat Arwyn yn Drwm LLGC am 7.30 Tocynnau £5 Ffôn: 632 800

**MAWRTH 3** Dydd Iau (Diwrnod y Llyfr). Lansio cyfrol Iestyn Hughes *Ceredigion: wrth fy nhraed: At my feet* yn y Drwm, LLGC am 7.00.
Rhaid archebu tocynnau gan Wasg Gomer cyn 24 Chwefror. Cyntaf i'r felin! 01559 363 090 elen@gomer.co.uk

**MAWRTH 4** Pnawn Gwener Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd Gwasanaeth rhyngenwadaol gan aelodau eglwysi Llanfihangel, Noddfa a'r Garn yn y Garn am 2.30.

**MAWRTH 8 a 9** Nosweithiau Mawrth a Mercher Arad Goch yn cyflwyno Cysgu'n brysur (Bethan Marlow) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAWRTH 16** Nos Fercher Bara Caws yn cyflwyno Hogia ni – yma hyd yn Theatr y Werin am 7.30

**MAWRTH 18** Nos Wener Orig gyda Hedd Bleddyn, a swper i gloi'r tymor Ysgoldy Bethlehem am 7 o'r gloch

**MAWRTH 19** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Richmond, Aberystwyth. Gwraig wadd: Sara Gibson

**MAWRTH 22** Nos Fawrth Radio Cymru'n recordio rhaglenni Talwrn y Beirdd ym Methlehem, Llandre, am 6.45yh. Y timau fydd: Penllyn yn erbyn y Cŵps, a'r Glêr yn erbyn Tan-y-groes. Croeso cynnes i bawb

**EBRILL 9-10** Dyddiau Sadwrn a Sul Gŵyl Bêl-droed Goffa Eric & Arthur Thomas ar Gaeau Baker, Cwmbwa a'r Ysgol ym Mhenrhyn-coch

**EBRILL 16** Nos Sadwrn Tudur Wyn, Clive Edwards a'r ddeuawd newydd Dafydd a Lisa yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau: £10; bydd holl elw'r noson yn cael ei rannu rhwng Calonnau Cymru a phapur bro Yr Angor. Tocynnau ar gael drwy ffonio'r Gwesty ar 01970 636 333 neu oddi wrth Megan Jones ar 01970 612 768

**EBRILL 22-23** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2016

**£25** (Rhif 18) W.H.Howells, Rhyd y Gof, Penrhyn-coch

**£15** (Rhif 229) Brenda Jones, Glynteg, Bow Street

**£10** (Rhif 220) Glyn Saunders Jones, Fferm Y Fagwyr, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn **Mercher Ionawr 20**

**COFIWCH EI BOD YN AMSER I AIL YMAELODI.**

### Academi Ger-y-lli

Gan fod prysurdeb ymarferion ar gyfer yr Urdd penderfynodd yr Academi ohirio yr ymarfer cyntaf hyd Ebrill 13. Bydd cyfres o 6 sesiwn Ebrill 13, 20, 27 Mai 4, 11 a 18. Cysylltwch â academigyl@gmail.com os am archebu lle!

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Ymunwch â grŵp Facebook Ytincer

## 30 MLYNEDD YN OL



Tîm pêl-droed Ysgol Rhydypennau yn eu dillad newydd, sef rhodd arbennig o hael Mr a Mrs Alun Phillips, 29 Maes Ceiro
(o *Dincer* Chwefror 1986)

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-Coch

### 22-23 Ebrill 2016

## Testunau llenyddol

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Esyllt Tudur, Llanrwst, a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post neu e-bost i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch. ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 3HE Rhoshelyg@btinternet.com **cyn 29 Mawrth.**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Y Gadair - Cerdd hyd at 50 llinell - Testun - Taith. Cadair fach a £50.00<br>Y Gadair a'r rhodd ariannol yn roddedig gan Rhian Huws a theulu y diweddar Dr Dafydd Huws, Mynydd Gorddu a Chaerffili. | |
| 2 | Telyneg - Gobaith | £10.00 |
| 3 | Llunio Brawddeg o'r gair - PANTYCELYN. | £10.00 |
| 4 | Englyn Ysgafn - Pwll Nofio . | £10.00 |
| 5 | Soned - Hen Gapel. | £10.00 |
| 6 | Erthygl addas i Bapur Bro heb fod dros 200 o eiriau - Cymdeithas | 1 £10.00<br>2 £5.00 |
| 7 | Adolygiad o Nofel Bethan Gwanas *I Botany Bay* (Y Lolfa) | £10.00 |
| 8 | Gorffen Limrig<br>Pan oeddwn yn eistedd mewn Caffi,<br>Pwy welais yn pasio ond Meri. | £10.00 |
| 9 | Tlws yr Ifanc - dan 21 oed Stori Fer - Tro Trwstan | Tlws a £20.00 |

**Y Gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens, Glan Seilo.**

# BOW STREET




**Diffribilwyr**
Yn dilyn y stori am diffribilwyr y mis diwethaf da deall fod dau beiriant wedi cyrraedd Bow Street erbyn hyn. Cyflwynwyd y cyntaf nos Lun yn y Neuadd a'r llall ger Spar dydd Mawrth. Yn y llun gwelir un y Neuadd yn cael ei dderbyn gan Sue Barclay, Shirley Rowlands a Richard Gethin. Mae'n debyg mai ymdrechion Lowri Evans, aelodau Sefydliad y Merched a chyfraniad gan Gyngor Cymuned Tirymynach alluogodd cael hwn a theulu Menna Manley sydd yn gysylltiedig â'r llall.

## Suliau

**Capel y Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**

**Chwefror**
**21** Bugail
**28** Oedfa'r ofalaeth - Gŵyl Ddewi

**Mawrth**
**6** John Tudno Williams
**13** Goronwy Prys Owen
**20** Bugail
**27** Oedfa'r Ofalaeth - Y Pasg

**Noddfa**
**Chwefror**
**21** Bugail
**28** Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb

**Mawrth**
**6** Uno yn y Garn am 10.00
**13** Oedfa am 10.00
**20** Cyfeillach am 10.00
**25** Oedfa Undebol Dydd Gwener y Groglith ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00
**27** Oedfaon Undebol Dydd Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00 a 2.00

## Chwiorydd y Garn

Cafwyd prynhawn difyr iawn ar y 3ydd o Chwefror yng nghwmni Carwen Fychan yn sôn am hen enwau Aberystwyth. Roedd ganddi doreth o wybodaeth hanesyddol, daearyddol a chymdeithasol ar flaenau ei bysedd ... enwau strydoedd, pyrth, ffynhonnau, nentydd tanddaearol, a llawer mwy. Byddwn yn gweld Aberystwyth â llygaid newydd o hyn ymlaen, diolch i Carwen.

Gwenda Edwards wnaeth y defosiwn a Kathleen Lewis oedd yn cyfeilio. Paratowyd te gan chwiorydd Bow Street.

Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd fydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 4ydd yn y Garn am 2.30. Gwasanaeth rhyngenwadaol fydd hwn gan aelodau eglwysi Llanfihangel, Noddfa a'r Garn. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Chwiorydd Cristnogol Ciwba. Croeso i unrhyw un ymuno â ni.


## Derbyn yn aelod



Bore Sul, 17 Ionawr, cafwyd y pleser o dderbyn Ffion Evans, Fronddel, yn gyflawn aelod yng Nghapel y Garn gan y gweinidog, Y Parch Wyn Rhys Morris. Cyflwynodd gopi iddi o'r gyfrol *beibl.net* ar ran yr eglwys, a dymunwn bob bendith iddi yn y dyfodol.

## Pen blwydd arbennig

Dymunwn yn dda i Ken Davies, Maes Ceiro, a ddathlodd ei ben blwydd yn 90 yn ddiweddar.



## Merched y Wawr Rhydypennau

Cawsom ein cyfarfod Carolau Nadolig yn Festri Capel y Garn Rhagfyr 14eg. Croesawyd ni yn gynnes gan ein Llywydd Shan Hayward. Ein gwestai oedd Alan Wynne Jones, Geraint Thomas ac Alun John, gyda Kathleen Lewis yn cyfeilio iddynt. Cawsom wledd o garolau yn unawd, deuawd a triawd a cafodd y gynulleidfa ymuno mewn rhai ohonynt. Rhannwyd ni yn ddau dim a cawsom gwis cerddorol ac roedd y ddau dim yn gyfartal! Enillwyd y raffl gan Lila Piette a Mair Lewis roddodd y diolchiadau. Cafwyd lluniaeth ysgafn hynod o flasus a diod ffrwythau cynnes

Cyfarfu'r gangen nos Lun 11eg o Ionawr. Darllenodd Shan Hayward ein Llywydd yr ohebiaeth ddaeth o'r Ganolfan wedyn croesawodd ein gŵr gwadd – Mr John Gwyn Jones o Gapel Seion. Testun ei sgwrs oedd Cardi ar y Paith sef yr ardal y cafodd

ei eni a'i fagu. Bu John yn Llyfrgellydd Teithiol am flynyddoedd ac ar ôl ymddeol mae wedi ymddiddori mewn hen luniau a dogfennau. Roedd yn anhygoel faint o wybodaeth oedd ganddo. Nid oedd wedi gwneud i ffwrdd a dim byd ac erbyn hyn mae ganddo drysorfa werthfawr iawn. Diolchwyd iddo gan Lisa Davies. Enillwyd y raffl gan Meinir Roberts a chafwyd paned gan Brenda Jones a Mair Davies.

### Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen nos Lun yr 8fed o Chwefror. Croesawyd ni yn gynnes iawn gan Sian ar noson stormus. Anfonwyd ein cofion at Eirian sydd wedi torri ei braich.

Ein gwraig wadd oedd Dulcie James o Aberystwyth. Cwis Rownd a Rownd oedd ganddi sef cwestiynau ar amrywiaeth o bynciau a rhannwyd ni yn bedwar tim. Cawsom hwyl fawr a pawb yn awyddus i ennill. Mae gan Dulcie ffordd arbennig a hwyliog o gyflwyno. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Sian.

Ann Jones enillodd y raffl a Janet a Delcy oedd yng ngofal y baned.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Owain a Tomoko Tomos, 7 Maes Ceiro, ar enedigaeth mab - Tanaki Aneurin Keito ar Ionawr 10.

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Gareth William Jones, Haddef, ar ennill cwis yn rhifyn Ionawr o'r cylchgrawn *Barn*

### Pen blwydd arbennig

Pob dymuniad da i Vernon Jones, Gaerwen, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar 22ain Chwefror. Pob hapusrwydd ar y dydd a mwynhewch.

### Debut actio

Dymuniadau gorau i Gwawr Keyworth, Y Lôn Groes, fydd yn un o'r actorion yn y cynhyrchiad Cysgu'n brysur (Bethan Marlow) – a ddisgrifir gan Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch a Chyfarwyddwr y ddrama, fel "cynhyrchiad cyfoes Cymraeg am fod yn ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain."



"Mae'n sôn am yr affêrs a'r fflirtio, angst y dosbarth, y gangiau a'r partïon gwyllt yn y goedwig, moesau ac anfoesoldeb ieuenctid, rhwystredigaeth gydag oedolion ac ofnau a gobeithion pobol ifanc" meddai. Ychwanegodd mai "ychydig iawn, os oes rhai o gwbl, o gynyrchiadau theatrig ar y raddfa hon ac o'r natur hwn sydd ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc yng Nghymru".

Mae 'Cysgu'n Brysur' yn gyd-gynhyrchiad gan Arad Goch, Canolfan Mileniwm Cymru a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Bydd y perfformiadau cyntaf yn Theatr y Werin ar 8 a 9 Mawrth.

Bu Gwawr yn rhan o nifer o gynhyrchiadau Canolfan y Celfyddydau, gan gynnwys eu sioeau haf proffesiynol (Hairspray: Brenda). Cafodd y cyfle hefyd i berfformio gyda Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Cwmni Ieuenctid yr Urdd. Cysgu'n Brysur yw cynhyrchiad cyntaf Gwawr gydag Arad Goch. Dymunwn yn dda iddi. Mae ei chwaer Gwyneth hefyd yn wyneb cyfarwydd – ar ôl graddio o RADA yn 2014 bu'n gweithio gyda nifer o gynhyrchiadau ac mae ar fin dechrau ffilmio cyfres newydd Wasted i E4. Mae hi a'r teulu yn falch iawn fod Gwawr yn cael y cyfle yma.

Mae yna ddau arall o Aberystwyth yn rhan anatod o'r cynhyrchiad – Rhys Taylor yw Cyfarwyddwr Cerdd y sioe, ac mae Cyfarwyddwr 'Cysgu'n Brysur', Jeremy Turner, yn gyfarwyddwr profiadol iawn sydd, fel Cyfarwydd Artistig Arad Goch, â bron i 200 o ddramau i'w enw. Mae Arad Goch, wrth gwrs, a'i wreiddiau yn Aberystwyth ers dros chwarter canrif.

### Croeso

Croeso i Mair ac Alun Jenkins sydd wedi symud o Gapel Bangor i Garn Wen.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Dei ac Auriel Evans, Trewylan, a ddathlodd eu priodas ruddem ar Chwefror 14eg.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mr a Mrs Tegwyn Evans, 43 Maes Afallen, a'r teulu cyfan ar farwolaeth mam Tegwyn ar y 7fed o Chwefror.

### Cyn-ddisgyblion

Bu dwy o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydypennau yn siarad am eu profiadau ar y teledu o fewn dau ddiwrnod! Da iawn Efa Mared (oedd yn sôn am ei haddasiad/cyfieithiad o gyfrol Linda Davies *Meistres y Bwa Hir* (Atebol) ac Angharad Gwyn am ei heic i godi arian i Mind.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Nos Lun cyntaf y mis cawsom noson o ddawnsio cyntefig yng nghwmni Maureen Crumpler, Pant y ddwy riw. Mae Maureen yn arbenigo mewn gwneud gwisgodd pwrpasol ar gyfer y dawnsio yma a mae hi hefyd yn cynnal dosbarthiadau yn Swydd Henffordd. Noson bleserus iawn yng nghanol y tywydd gwael.

## LLANDRE

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Eddie Jenkins, Eryl, ar golli ei chwaer Nansi Evans - gynt o Blaenpennal - yn ddiweddar.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Meinir Edwards a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Lynda Evans, Maeshenllan, sydd newydd gael llawdriniaeth yn ysbyty Bron-glais.



**Merched y Wawr Llandre yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Y Blac yn Nhal-y-bont, ddydd Sadwrn, Chwefror 13eg. Cawsom wledd dda o fwyd a gwnaeth pawb fwynhau.**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau

**Pen-llwyn**
**Chwefror**
**21** 10.00 Arwyn Pierce
**28** Oedfa'r ofalaeth - Gŵyl Ddewi

**Mawrth**
**6** 10.00 Bugail
**13** 10.00 Huw Roderick
**20** 5.00 Judith Morris
**27** Oedfa'r Ofalaeth - Y Pasg

### Merched y Wawr Melindwr

Ar ddechrau'r flwyddyn cafwyd noson o ioga gyda Mrs Sue Jones Davies.'Roedd yn noson hamddenol a phawb yn teimlo dipyn yn well ar ôl ymlacio. Talwyd y diolchiadau gan Angharad Jones. Glenys Griffiths ac Eirwen McNulty wnaeth y te. Enillwyd y raffl gan Llinos Jones.

Nos Fawrth cyntaf y mis bach daeth mwyafrif o'n haelodau i'n cyfarfod misol. Codwyd llawer o faterion i'w trafod a 'u penderfynu. Cadarnhawyd faint oedd yn mynychu dathlu ein Nawdd Sant ar Fawrth y cyntaf yng Nghanolfan Crefft Rhydypennau am 7 yh. Croesawyd a chyflwynwyd y wraig wadd - Mrs Dana Edwards gan ein Llywydd Delyth Davies. Ganwyd Dana yn Nolgran, Sir Gaerfyrddin ac ar ôl mynychu Prifysgol Cymru Aberystwyth aeth i weithio fel ymchwilydd rhaglenni S4C. Ffaith a Ffuglen oedd araith y noson. Ymchwilio y ffeithiau cyn ysgrifennu'r stori sydd yn bwysig, ond rhaid bod yn fanwl wrth ymchwil meddai. Roedd pawb yn awyddus i ddarllen ei nofel gyntaf *The other Half* ac erbyn hyn mae'r ail nofel *Pam* bron a'i chyhoeddi , a'r drydedd ar y gweill. Rhoddwyd diolchiadau i Dana gan Eirlys Davies. Lynne Davies a Llinos Evans oedd yng ngofal y te. Enillwyd y raffl gan Aerona Armitage.

### Eglwys Dewi Sant

Ar nos Wener, 4 Rhagfyr cynhaliwyd noson goffi a raffl fawr yr Eglwys. Yn dilyn cafwyd adloniant hyfryd gan Bois y Gilfach. Adloniant arbennig a diwylliannol dan arweinyddiaeth Heledd Williams gyda hithau yn cyfeilio i'r côr hefyd. Dyma i chi berson dawnus. Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan ar y fath dywydd. Croesawyd pawb gan Mrs Nancy Evans a thalwyd y diolchiadau gan Y Parchedig Heather Evans.

Ar nos Sul, 20 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng ngolau'r gannwyll dan arweinyddiaeth Y Parchedig Heather Evans. Darllenwyd 9 llith gan y canlynol: Gwynfor Jones, Sarah Hughes, Llinos Jones, Margaretta Jones, Lowri Jones, Mia Howells, Nannon Jones, Iris Richards a Heather Evans. Yr organyddes oedd Mr Maldwyn James. Braf gweld yr eglwys yn llawn o gynulleidfa. Cafwyd eitemau rhagorol gan Y Parchedig Andrew Loat. Addurnwyd yr eglwys yn hyfryd gan yr aelodau. I orffen, cafwyd paned a mins peis yn Neuadd yr Eglwys. Casglwyd £134.65 ar y noson a rhoddwyd yr arian tuag at "Embrace the Middle East".

Ar noswyl Nadolig, cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid am y tro cyntaf dan arweinyddiaeth Y Parchedig Heather Evans am 11.30 yr hwyr. Hefyd ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid dan arweinyddiaeth Y Parchedig Heather Evans am 9.30 y bore.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Y thema ar hyn o bryd yn y Cylch ydi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, a gan ei fod yn Flwyddyn y Mwnci mae llawer o hwyl wedi bod yn gwneud mwncïod, Draig enfawr a gwneud ardal tec-awê Tsieineaidd. Bydd y plant yn cerdded y Ddraig rownd yr iard mewn parêd ar y 10fed Chwefror ac yn cael blasu bwyd Tsieineaidd.



### Clwb 200

Diolch i Eirian Jenkins am drefnu y Clwb 200 eto eleni ac am haelioni ein rhieni a phawb a fu'n cefnogi'r Cylch eto drwy godi arian. Derbyniwyd £660 o'r gwerthiant a caiff hanner o'r arian yma ei dalu allan fel gwobrau dros y flwyddyn. Enillwyr mis Ionawr ydi:

1. Geraint Williams
2. Peni Macy
3. Eluned Lewis

Os oes unrhyw un am ymweld â'r Cylch neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â cmpenllwyn@gmail.com neu rhowch ganiad i Jools neu Shirley ar 07528 052163 yn ystod oriau'r Cylch - 9 tan 3yp, Llun i Gwener.

### Ysbyty

Gwellhad buan i Mr Maldwyn James, Afallon, sydd wedi bod yn yr ysbyty, am amser byr, yn ddiweddar. Hyderwn ei fod yn teimlo yn well erbyn hyn. Dymuniadau da iddo.

### Cofio

Ychydig amser yn ôl, wrth sgwrsio gyda Mrs Maggie Jones, Haulfryn, sy'n 90 oed, syndod oedd clywed am gymaint o gyfleusterau oedd yn y pentref, rhyw hanner canrif yn ôl.'Roedd Melin,yn defnyddio afon fach Melindwr i falu, ac ef Alfred Jones a gynhyrchodd drydan i holl Gapel Bangor y pryd hynny. Y dair siop, oedd Pengraig Stores, Exchange, a Vaughans Tŷ Capel. Yn ogystal 'roedd ystafell fach melysion yn Islwyn



**Siop yr Exchange Gorff 1990; trwyddedwyd i'w ailddefnyddio dan y Creative Commons Licence.**



**Yr Hen Lythyrdy**

Blaengeuffordd. Byddai Miss James yn pwyso y sweets i'r owns, a hyd yn oed yn torri un yn hanner os oedd angen! Wrth gwrs 'roedd yna eglwys a chapel, ac Ysgol, hefyd dwy garej, a dwy dafarn. Mae'n anodd dychmygu gorsaf Heddlu yn Glynorig, Crydd yn Maesbangor Arms, Gof yn Tynllidiart. a'r Llythyrdy yng nghanol y pentref. Yn Laburnums preswyliai y Nyrs Ardal, sef Nyrs Griffiths, yn mynd ar hyd y lle ar feic, a hwnnw a rhyw olwynion mawr, fel yr oeddynt y pryd hynny. I'r rhai â diddordeb, priododd hon â Williams Fferm Maesbangor. Fel y mae pethau wedi newid cymaint! Yn aros, Eglwys, Capel, Ysgol, Garej, a dwy dafarn. Fel a ddywed Mrs Jones, a llawer un y cyfnod hwn, dyddiau dedwydd!



**Golygydd @WalesOnline**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Paul Rowland, gynt o Lwyn yr Eos, Capel Bangor ar gael ei benodi yn olygydd @WalesOnline. Mae Paul sydd ar hyn o bryd yn olygydd datblygu digidol y cwmni, yn dechrau ar ei ddyletswyddau newydd ar Fawrth 1af.

# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Imogen yn Aberystwyth

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**


*CIGYDD BOW STREET*
*Eich cigydd lleol*
PEN-Y-GARN
FFÔN 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro Ceredigion Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk


yBlac
TALYBONT
NI NÔL...AC MAE GANDDOM NI FWYDLEN NEWYDD SBÔN!
EWCH I'N GWEFAN I'W GWELD, AC AM EIN CYNIGION ARBENNING - GAN GYNNWYS NOSON STÊC BOB NOS FERCHER
01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

# PENRHYN-COCH

## Oedfaon Horeb

**Chwefror**

**21** 10.30 Ysgol Sul
2.30 Beti Griffiths Oedfa bregethu
**28** 10.30 Kieran Owen Oedfa bregethu
10.30 Ysgol Sul - ar y cyd gyda S Ioan yn S Ioan

**Mawrth**

**6** 2.30 Y Parchg John Roberts Oedfa gymun
**13** 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
**20** 10.30 Ysgol Sul
2.30 Sion Meredith
**27** 10.30 Sul y Pasg Y Parchg Judith Morris

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Chwefror; 9, 23 Mawrth. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Croeso

Croeso i Manon, John ac Elen sydd wedi i symud i Dôl Helyg, o ardal Caerffili.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Edward Evans, Dôl Helyg, ar farwolaeth ei dad - Robin Evans, Clarach.

Cydymdeimlwn â Wendy, Eirian a Derfel Reynolds, Ger-y-llan a Manon, John ac Elen. Dôl Helyg ar farwolaeth mam Wendy yn Ysbyty Glangwili ganol y mis.

## Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus hwyr i Glyn Collins, Ger-y-llan, ar ddathlu pen blwydd arbennig ddiwedd Ionawr.

## Tysteb Prifathro

Bydd Ysgol Penrhyn-coch yn ffarwelio â'r prifathro Emyr Pugh-Evans ddiwedd tymor y Gwanwyn wrth iddo gymryd swydd Pennaeth mewn ysgol yng nghymoedd y De. Os am gyfrannu at anrheg gadael i Emyr a allwch roi eich cyfraniadau i Shan James, Pen-banc neu Glenys Morgan, Tir-y-dail cyn diwedd mis Chwefror. Gyda diolch Llywodraethwyr yr Ysgol

## Priodas

Llongyfarchidaau a dymuniadau gorau i Frank Allsopp a Phyllis Dixon, Ger-y-llan a briodwyd yn Eglwys Sant Ioan ar Chwefror 13.



**Enwebu am wobr**

Dymuniadau gorau i'r newyddiadurwr Caleb Spencer sydd yn y ras am wobr Gohebydd Myfyrwyr y Flwyddyn am ei waith ym mhapur myfyrwyr Prifysgol Caerdydd *The Cardiffian* - erbyn hyn mae Caleb yn gweithio i'r *Cambrian News.* Cyhoeddir enillwyr Gwobrau Cyfryngau Cymru 2016 mewn Seremoni Wobrwyo yng Nghaerdydd ar Fawrth 4ydd. Pob hwyl i Caleb.

## Gwella

Dymunwn wellhad buan i Jennie Evans, Fredora, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais. Da hefyd yw deall fod Mrs Hillier, Ger-y-Llan yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty dros y Nadolig.

Ac hefyd Glenys Thomas, Cwmfelin, yn gwella ar ôl triniaeth yn Gobowen.

Dymunwn yn dda hefyd i Wyn Humphreys, Y Gelli, ar ôl triniaeth yn ddiweddar.

## Merched y Wawr

Ar y 14eg o Ionawr aeth y gangen i Westy'r Conrah i fwynhau ei ginio blynyddol. Cafwyd yno groeso arbennig. Roedd y noson yng ngofal Sharon Jones a Glenys Morgan. Fe groesawodd Glenys bawb i'r cinio ac yr oedd y bwyd yn flasus dros ben. Yna cyflwynwyd y wraig wadd, sef Sara Gibson. Bu hi yn sôn am ei hanes pan yn yr ysgol yng Nghaerdydd, ei hamser yng Ngholeg Aberystwyth, ac hefyd ei hamser yn gweithio yn Llundain. Holl hanes ei gyrfa fel newyddiadurwraig a sut oedd pethau wedi datblygu erbyn heddiw ym myd technoleg ac yn y gwaith ffilmio ac yn y blaen. Noson ddiddorol dros ben a tipyn o chwerthin wrth i Sara sôn am ei hanes. Diolchwyd yn swyddogol i bawb gan Delyth Jones.

## Clwb / Ysgol Sul

Ers diwedd mis Ionawr mae Clwb/ Ysgolion Sul Horeb a St Ioan yn cydgyfarfod ar Sul olaf y mis. Ysgogwyd y cam gan Zoe Jones, Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion. Gwelir y cydweithio yn ffordd o rannu adnoddau a phrofiadau. Bu'r cyfarfod cyntaf yn Horeb a bydd cyfarfod diwedd Chwefror yn Eglwys St Ioan. Os am fwy o wybodaeth cysyllter â Wendy Reynolds, wendyreynolds60@yahoo.co.uk , Zoe 07584411524, Marianne 828064 neu Lynwen yn y Garej.

## Ennill cwis

Llongyfarchiadau i Elissa Martin ar ennill gwerth £100 o dalebau siopau y Stryd Fawr yn y cwis teledu Pyramid. Roedd tri o gyn-ddisgyblion Ysgol Penrhyn-coch ymhlith y chwe chystadleuydd yn y gêm ar Chwefror 8fed. Daeth y tri - Llion, Sion ac Elissa drwodd i lefel 2; erbyn lefel 4 dim ond Llion ac Elissa oedd ar ôl ac Elissa a orfu! Da iawn ti Elissa!




## Cogurdd

Llongyfarchiadau i Owen Galbraith ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Cogurdd Ceredigion.

## Noson ffarwelio

Nos Wener 18fed o Fawrth am 7.00 yn Neuadd y Penrhyn. Penrhyn-coch. Noson Anffurfiol Caws a Gwin i ffarwelio ag Emyr Pugh-Evans, Prifathro Penrhyn-coch a chyfle i gael sgwrs. Croeso cynnes i bawb - disgyblion presennol, rhieni presennol, cyn-ddisgyblion, rhieni cyn-ddisgyblion a thrigolion yr ardal.

## Eglwys Sant Ioan

Nos Wener 29 Ionawr daeth criw ynghyd yn Neuadd yr Eglwys, ar gyfer noson gwis, caws a gwin. O dan arweiniad gwybodus ac amyneddgar y cwis feistr, Bob Hughes-Jones, bu pump o dimoedd yn ymgiprys yn galed â'i gilydd am deitl y pencampwyr. Ar ôl llawer y frwydr cafwyd hyd i'n pencampwyr ond ar ôl yr hwyl o gyd-chwarae doedd hynny ddim mor bwysig â hynny wedi'r cyfan. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r noson gan ychwanegu at yr mwynhad trwy eu presenoldeb a'u parodrwydd i ateb y cwestiynau a hynny hyd yn oed pan yn gwybod nad oedd yr atebion yn gywir.

Ar 10 Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog y Cymun Bendigaid ynghyd ag arnodiad lludw yn Eglwys S. Ioan o dan arweiniad y Parchg Andrew Loat, offeiriad â gofal, i gadw Dydd Mercher y Lludw ac i nodi dechrau'r Garawys. Y diwrnod blaenorol, ar ddydd Mawrth Ynyd, croesawyd disgyblion iau Ysgol Penrhyn-coch a phlant Cylch Meithrin Trefeurig i'r eglwys i ddysgu rhagor am yr arfer o fwyta crempog neu bancoge ar y dydd hwnnw ac pham bod rhai Cristnogion yn defnyddio lludw fel arwydd o edifeirwch yn ystod y Garawys.

Yn ystod tymor y Garawys cynhelir gwasanaeth Cymun Bendigaid dwyieithog am 10.00 bob bore Iau yn yr eglwys. Bob nos Iau yn y Garaawys hefyd mewn gwasanaeth Hwyrol Weddi dwyieithog, bydd cyfle i ddilyn Ffordd y Groes. Yn ogystal bydd cyfres o astudiaethau Saesneg yn cael eu cynnal yn y Ficerdy am 7.30pm ar y dyddiadau canlynol: 18 Chwefror, 23 Chwefror, 3 Mawrth, 8 Mawrth, 17 Mawrth a 22 Mawrth. Cofiwch hefyd y caiff y Foreol Weddi ei dweud bob bore Llun, Mercher a Iau yn Eglwys S. Ioan am 8.45. Croeso cynnes i'r digwyddiadau hyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda'r curad, y Parchg Lyn Dafis ar 820162 neu lyndafis@gmail.com.

## PATRASA

Mae PATRASA - pwyllgor Parc Penrhyn-coch yn gweithio yn ddiwyd i gadw'r Parc yn daclus drwy gydol y flwyddyn, a chan i ni gael blwyddyn lwyddiannus y llynedd gyda'r Parti yn y Parc gorau ers sawl blwyddyn, rydym dros dymor y gaeaf wedi bod yn brysur yn cynllunio a threfnu ardal newydd lle bydd plant yn gallu chwarae ar eu beiciau a theganau symud. Fe fu ardal sglefyrddio yno yn y gorffennol a chan fod y cyfarpar wedi dirywio cymaint roedd rhaid ail drefnu'r ardal. Yr wythnos diwethaf marciwyd y fan gyda hewlydd ar gyfer beiciau a marciau ar gyfer chwarae "hopscotch". Gan fod yr ardal yma yn cael ei hail drefnu, fe gymerwyd ar y cyfle i ail farcio'r cyrtiau tennis gyda marciau gwahanol chwaraeon .

Croeso i unrhyw un i ddod i'n helpu gyda'r glanhau yn y Parc yn ystod y gwanwyn a'r haf neu drwy helpu i drefnu codi arian. Mae y Parc yn cael ei rentu gennym oddi wrth Cyngor Ceredigion ac yn cael ei redeg gan griw bach gwirfoddol sydd yn ceisio cadw eich Parc i fynd. Edrychwch ar ein tudalen Facebook am ein cyfarfod nesaf.









Cafodd Hannah Evans a'i mab Cai o Benrhyn-coch sioc bythefnos nôl pan ymddangosodd ceffyl y tu ôl iddynt mewn llun oeddynt yn ei dynnu yng Nghlarach. Gwnaeth llun tebyg y penawdau yn ardal Prestatyn yn ddiweddar pan enillodd teulu wyliau £2,000 efo cwmni Thompson. Ceisiodd perchennog y ceffyl hwnnw gyfran o'r wobr.



Mae Myfanwy a Wil/Wilma wedi dechrau dodwy!! Dyma blant Cylch Meithrin Trefeurig yn mwynhau'r wyau



Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Blwyddyn Newydd Tseineaidd

# Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm 1af**
16/01/16 – Cynghrair
Y Trallwng 3-4 Penrhyn-coch
23/01/16 – Tlws CBC
Queens Park 1-0 Penrhyn-coch

**2il Dîm**
16/01/16 – Cynghrair
Eilyddion Penrhyn-coch 2-0
Eilyddion Machynlleth
23/01/16 – Cynghrair
Eilyddion Penrhyn-coch 1-3
Eilyddion Bow Street

**Menywod**
24/01/16
Prifysgol Aberystwyth 6-2
Penrhyn-coch

# Cymdeithas Cyn-ddisgyblion ysgol Aber-banc

**Annwyl Ffrindiau**,
Er mwyn cofio am addysg yn ardal Aberbanc mae Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Aber-banc yn awyddus i greu cof parhaol ar ffurf llyfr. Diwedd y gân yw'r geiniog wrth gwrs. Ni fedrwn gyhoeddi'r llyfr os na chawn swm sylweddol o arian i dalu'r wasg ymlaen llaw. Medrwch ein helpu trwy dalu £10 ymlaen llaw neu trwy gyfrannu rhodd o £10 neu fwy i un o'r swyddogion. Trwy wneud hyn byddwch yn sicrhau copi o'r llyfr ac yn cael eich enwi ar restr y tanysgrifwyr o fewn y llyfr.Gwnewch sieciau yn daladwy i **Aduniad Aber-banc.** Bydd unrhyw elw a wneir o werthiant y llyfr yn mynd yn ôl i'r gymuned.

Danfonwch eich cyfraniadau at un o'r canlynol: **Margarette Hughes**, Maesyffynnon, Gerddi'r Ffynnon, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gar. SA340HP
**Ysgrifennydd**: Mair Organ, 1 Bro Dewi, Henllan, Llandysul, Ceredigion SA44 5TL
**Trysorydd**: Owenna Davies, Cledlyn, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion SA44 4TF

Rydym hefyd yn chwilio am luniau ac atgofion. Felly os ydych yn gyn ddisgybl, cyn athro neu aelod o staff yr ysgol ewch ati ar un waith i chwilio ac i gofio.

Diolch am eich cefnogaeth.

**Margarette Hughes**, Cadeirydd.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 28 Ionawr a dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Sian Jones yn Neuadd Rhydypennau. Llongyfarchwyd Mr Peter Leggett ar ei apwyntiad fel Prifathro newydd Ysgol Rhydypennau gan ddymuno pob llwyddiant iddo ef a'r ysgol. Croesawyd i'r cyfarfod gynrychiolwyr o Bwyllgor y Neuadd ac anerchwyd y Cyngor gan Mr Richard Gethin. Dywedodd fod Neuadd Rhydypennau yn wynebu problemau enbyd yn strythwyrol ac yn ariannol, a'u bod fel pwyllgor yn barnu fod oes y neuadd fel ag mae wedi dod i ben. Fe gyst £7500 y flwyddyn i'w chadw ar agor yn unig, ac mae incwm o weithgareddau wedi bod yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Bydd cyfarfod o'r ymddiriedolwyr yn fuan a bydd y pwyllgor yn argymell rhai opsiynau megis: gwneud dim, rhedeg allan o gyllid a hynny o fewn deunaw mis, cau'r neuadd a'i gwerthu ar y farchnad, cytuno pecyn ariannu gyda'r Cyngor Cymuned a fyddai'n sicrhau grant refeniw i gefnogi'r neuadd, ymuno gyda grŵp, cymdeithas neu sefydliad arall yn y pentref gyda'r bwriad o gyfuno adnoddau ac adeiladu neuadd newydd ar y safle presennol neu safle newydd.

Ar hyn o bryd mae ganddynt broblem ddifrifol gan fod to rhai o'r adeiladau sydd yn glwm wrth ochor ogleddol y neuadd mewn angen atgyweirio ar frys ac mae ganddynt amcan bris gan adeiladwr lleol £5,500. Tybed a allai'r Cyngor eu helpu? Diolchwyd i'r cynrychiolwyr a thrafodwyd y cais. Penderfynwyd argymell y pwyllgor a'r ymddiriedolwyr i ofyn am ddau amcanbris arall, a bydd y Cyngor yn cyfrannu hyd at £2,500 at y gost. Hyn ar ben y cyfraniad blynyddol o £1,000.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge fod prosiect a chynllun yr orsaf yn symud ymlaen yn foddhaol. Bu contractwyr yn prawf dyllu (trial borings) yn un o gaeau Gogerddan lle dymunir cael ardal barcio. (Deallir fod y peiriant wedi mynd yn styc yno!) Bydd cyfarfod safle yn fuan ym Mlaen-ddôl i geisio datrys problem dŵr y ffordd yn rhedeg at y tai. Gobeithir cael dyddiad i gyfarfod PACT yn fuan.

Hon oedd y noson pryd y penderfynwyd ar Praesept am y flwyddyn 2016-17. Er mwyn codi £18,000, bydd y dreth yn £21.64 am annedd Band D. Hon hefyd oedd y noson pryd y dosbarthwyd rhoddion i fudiadau a wnaeth gais, ac a ddiolchodd am gyfraniadau blaenorol. Dyma'r canlyniad: Ffrindiau Cartref Tregerddan £150, Y Tincer £400, Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau £500, Pwyllgor Henoed £300, Mynwent y Garn £200, Mynwent Noddfa £200, Clwb Hoci Bow Street £150, Cylch Meithrin Rhydypennau £150, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Neuadd Rhydypennau £1000, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £100, CAB £200, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £200, Noson Tân Gwyllt £300.

Adroddwyd fod dau Dai Fib wedi eu harchebu yn yr ardal a bod cais wedi dod i'r Cyngor am £300, ac fe'i talwyd eisioes. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Chwefror.

# DÔL-Y-BONT

**Cydymdeimlad**
Gyda thristwch y clywsom y newyddion trist ddiwedd Ionawr am farwolaeth un o gymeriadau y pentref, sef Mr Gareth Morgan, Glenside.

Er na fu Gareth yn yr iechyd gorau ers rhai misoedd a bu'n rhaid iddo ildio a mynd i Gartref Min y Môr yn Aberaeron dros ei fisoedd olaf. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Iau, 3 Chwefror ac estynnwn ein cydymdeimlad gyda ei fab Peter a'r teulu yn eu profedigaeth.


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

# Arddangos Archaeoleg a Threftadaeth yng Ngheredigion

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn cynnal Ysgol Undydd Archaeoleg i ddathlu archaeoleg a threftadaeth Ceredigion yng Nghanolfan Morlan Aberystwyth ddydd Sadwrn 5 Mawrth o 10yb tan 4.30yh.

Bydd y digwyddiad hwn yn arddangos cyfoeth gorffennol Ceredigion drwy gyfres o gyflwyniadau, arddangosiadau a thrafodaethau ar y gwaith ymchwil a'r astudiaethau archaeolegol diweddar a wnaed yn y rhanbarth.

Dyma ambell brosiect fydd yn cael sylw ar y diwrnod:

- 40 mlynedd o fodolaeth Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
- Stori Pont Ceunant, Gorsaf Bŵer Trydan-Hydro Fictorianaidd ar gyfer Chwarel Fetel Frongoch
- Olion Neolithig, Rhufeinig a Chanoloesol Gynnar yng ngogledd Ceredigion. Tystiolaeth newydd o waith cloddio diweddar
- Llong Lechi Ynys-las: llongddrylliad mewn llanw a thrai
- Yr archaeoleg a'r hanes datblygol yn Llanrhystud, ei draeth a'i glogwyni sy'n erydu yn eu cyd-destun arfordirol ehangach.
- Cloddiadau diweddar yn maes parcio Stryd y Felin


Starn llongddrylliad yn Ynys-las

Mae'r siaradwyr yn cynnwys Louise Barker, Archwiliwr Archaeolegol a Iestyn Jones,rheolwr Prosiect ar gyfer Archaeology Wales. Bydd Ken Murphy a James Meek o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed hefyd yn siarad yn ystod y diwrnod.

Os ydych yn aelod o grŵp treftadaeth gymunedol neu gymdeithas hanes leol, ac yn dymuno cyflwyno poster yn arddangos eich gwaith yn yr Ysgol Undydd, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Mae'r diwrnod ar agor i bawb sy'n ymddiddori yn nhreftadaeth Ceredigion, ond mae lleoedd yn brin felly mae'n rhaid archebu lle'n gyntaf. Cost yr ysgol undydd yw £5 y pen, ac mae'n cynnwys te, coffi a bisgedi. Mae'n rhaid archebu lle ymlaen llaw.

I archebu lle cysylltwch â Felicity drwy ffonio 01558 825994 neu anfonwch e-bost atf.sage@dyfedarchaeology.org.ukOs hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â'r prosiectau a'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, ewch ar y wefan www.dyfedarchaeology.org.uk

Llongddrylliad yn Ynys-las – arolygu y coed


## Y BORTH

**Cerddor Ifanc Rotari**

Llongyfarchiadau i Erin Hassan, Ynys-las, yr enillydd yng nghystadleuaeth ardal Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Rotari nos Iau 21 Ionawr yn Ysgol Bro Dinefwr, Campws Tregib. Roedd yn cystadlu ar ran Clwb Rotari Aberystwyth ac ym mlwyddyn 11 Ysgol Gyfun Pen-glais.. Mae'n aelod o Gerddorfa Ieuenctid Ceredigion a Cherddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru ac ar Sadyrnau mae'n mynychu Conservatoire Ieuenctid Birmingham; mae hefyd yn ei hamser hamdden yn chwarae pêl-droed. Dymuniadau goreu i Erin yn rownd De Cymru o'r gystadleuaeth sydd i'w chynnal yn Ysgol Gyfun Y Bontfaen ar 27 Chwefror.

**Annwyl Olygydd,**

Rydw i'n ysgrifennu storïau am ddyn sydd wedi ymddeol sy'n byw yn y Borth. (Yn Saesneg, mae'n ddrwg gen i: dw i'n byw yn Lloegr.) Mae'r cyntaf efo cyhoeddwr, ond dw i ddim wedi clywed unrhyw beth eto... Dw i'n ceisio defnyddio'r adeiladau go-iawn, tywydd go-iawn, i ddweud storïau byw.

Tybed oes gan un o'ch darllenwyr amser sbâr i anfon e-bost imi ambell waith, os oes rhywbeth anghyffredin yn digwydd yn y Borth? - y môr yn dod dros y morglawdd, morfil yn y bae, siopau newydd yn agor a.y.b. Dim byd am bobl, achos dw i'n dyfeisio'r bobl i gyd yn y storïau. Dw i'n dod i'r pentre deirgwaith y flwyddyn, ond mi hoffwn i glywed am newyddion lleol. (Y Borth,Ynys-las a Thal-y-bont yn unig.)

Mi fydda i'n ddiolchgar iawn am wybodaeth.

Diolch yn fawr,
Malinda Law
negentropy.enquiries@gmail.com

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# O'r Cynulliad Elin Jones



Ar ôl i Gyllideb Drafft y Cynulliad ddod â chryn dipyn o newyddion drwg i Geredigion ar ddechrau'r flwyddyn, rwy'n falch o allu adrodd rhywfaint o newyddion gwell.

Yn gyntaf, roedd y Gyllideb wreiddiol wedi bwriadu torri 10% o'r cyllid ar gyfer cefnogi cyhoeddwyr. Byddai hyn wedi taro'r fasnach lyfrau, yn enwedig yn Gymraeg, ac yn fygythiad gwirioneddol i nifer o gwmnïau argraffu lleol. Wedi ymgyrch fywiog, ni fydd toriad bellach yn y gyllideb hon. Mae'r toriadau i gyllid ein prifysgolion, sydd eto'n bwysig iawn i Geredigion, hefyd yn mynd i fod gryn dipyn yn llai na'r bwriad gwreiddiol. Er, mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn dal i gael ei dan-ariannu, a bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â hyn. Roedd hefyd ychydig o arian ychwanegol i lywodraeth leol, ond mi fydd ein Cyngor Sir yn dal i wynebu toriadau llym unwaith eto.

Braf oedd cael mynychu dau ddigwyddiad yn y mis diwethaf oedd yn dangos pwysigrwydd amaeth i'r economi wledig. Cynhaliodd Undeb Amaethwyr Cymru ei brecwastau enwog, gan gynnwys un yn y Cynulliad ac un yn ardal Penrhyn-coch. Mae hyn yn ffordd wych o ddangos cynnyrch ffermwyr Cymru. Hefyd, cynhaliodd yr NFU ddigwyddiad ger Castellnewydd Emlyn lle gwahoddwyd nifer o fusnesau gwledig sydd oll yn gyd-ddibynnol ar amaeth. Bu llynedd yn flwyddyn anodd i amaeth, gyda phrisiau gwael mewn mwy nag un sector, ac oedi yn y taliadau sengl; da felly oedd y cyfle i atgoffa pobl am bwysigrwydd y diwydiant.

Yn olaf, roedd yn fraint i gael mynychu lansiad llyfr newydd Tedi Millward ym Mhenrhyn-coch. O fod yn ymgeisydd seneddol yn y 60au, i ddysgu cenedlaethau o fyfyrwyr yn Aberystwyth, mae gan Tedi lu o brofiadau amrywiol, a gwych gweld Gwasg Gomer yn eu cyhoeddi mewn cyfrol.

# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gydag Elen ac Arthur Williams, Penrhiwlas, ar farwolaeth eu cyfnither, Hilda Mason, Cwmsymlog.

Trist hefyd yw cofnodni marwolaeth Fanw Mclean (née Davies), Arfon House a Thŷ'r Ysgol Goginan gynt, yn ystod y mis yma. Roedd wedi ymgartrefu tan yn ddiweddar yn Llangurig.

### Anrhydedd arall

Daeth anrhydedd arall i'r awdures Caryl Lewis. Mae erthygl ar wefan *The Guardian* wedi dewis cyfieithiad Saesneg o'i nofel *Martha, Jac a Sianco* (Y Lolfa) yn un o ddeg llyfr y dylid eu darllen o wahanol rannau o'r byd. Penderfynodd Ann Morfan, awdures a golygydd o Lundain ddarllen llyfr o bob un o wledydd y Cenhedloedd Unedig mewn blwyddyn - prosiect o'r enw A  Year of Reading the World'.

Dewiswyd *Martha, Jack & Shanco* (Parthian Books) i gynrychioli llenyddiaeth gwledydd Prydain a daeth ymhlith ei deg ffefryn o blith 196 cyfrol. Mae dwy o'i nofelau arall yn cael eu cyfieithu ar hyn o bryd *Y Gemydd* a *Naw Mis* a chaiff darnau o *Y Bwthyn* eu cyfieithu fel rhan o brosiectY Silff Lyfrau Cyfnewidfa Llên Cymru.

### Bwlch Nantyrarian

O Ddydd Llun 22ain Chwefror 2016, bydd y Ganolfan Ymwelwyr a'r caffi ynghau am wythnos fel y gellir ailwampio rhywfaint ar y gegin. Ein gobaith yw agor unwaith eto gyda bwydlen gyfyngedig ar 27ain Chwefror ac agor yn llwyr erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Mawrth. Gallai'r dyddiadau hyn newid yn dibynnu ar gynnydd y gwaith. Bydd y llwybrau a'r mannau chwarae ar agor a byddwn yn parhau i fwydo'r barcutiaid bob diwrnod drwy gydol y cyfnod hwn.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar 01970 890453 neu bnya@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.


**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

## CAPEL MADOG

**Oedfaon Madog**
**2.00**
**Chwefror**
**21** Bugail
**28** Oedfa'r ofalaeth - Gŵyl Ddewi

**Mawrth**
**6** John Tudno Williams
**13** Goronwy Prys Owen
**20** Bugail
**27** Oedfa'r Ofalaeth – Y Pasg

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Anwen Hughes, Gellinebwen, ar ei dyweddiad â Berwyn Roderick o Drecastell, ger Aberhonddu.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â David a Cynthia Binks, Trysor, Cefn-llwyd wedi iddynt golli chwaer-yng-nghyfraith, Mrs Ruth Binks o Lanbadarn Fawr.

# Categoreiddio Ysgolion

**Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar yn categoreiddio ysgolion mae peth dryswch ymhlith rhai rhieni ac aelodau o'r cyhoedd o arwyddocad y gwahanol liwiau. Dyma wybodaeth all fod o gymorth.**

Mae'r lliw a ddynodir ar gyfer ysgol yn rhoi mynediad i'r ysgol at ddiwrnodau cymorth, er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddosrannu yn unol ag anghenion ysgolion unigol. Bydd ysgol mewn categori cymorth gwyrdd yn derbyn rhyw bedwar diwrnod o gefnogaeth ac ysgol mewn categori cymorth coch yn derbyn hyd at bum ar hugain o ddiwrnodau cymorth.

Sefydlodd y Llywodraeth system genedlaethol er mwyn anelu at gysondeb wrth bennu'r diwrnodau cymorth hyn. Un elfen yw data cyrhaeddiad yr ysgol, ble mae asesiadau athrawon a phresenoldeb dros dair blynedd yn cael ei ystyried. Yn y sector uwchradd, mae canlyniadau allanol TGAU dros dair blynedd hefyd yn faen prawf pwysig.

Ystyriaeth arall yw gallu'r ysgol i barhau i wella, sef yn bennaf oll ystyriaethau ynghylch dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth oddi fewn i'r ysgol. Defnyddir meini prawf cenedlaethol ar gyfer y diffiniad hwn sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd yr ysgol i sicrhau bod ansawdd dysgu ac addysgu yn gyson dda i bob grŵp o ddisgyblion.

Serch hyn, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried wrth gytuno ar gategori cymorth ar gyfer ysgol. Bydd nifer o ysgolion â phenaethiaid newydd neu benaethiaid dros dro a fydd angen mwy o gymorth wrth gychwyn yn eu rôl newydd, neu yn y sector uwchradd efallai bydd hyn yn wir o benaethiaid adrannau allweddol.

Yr hyn sy'n allweddol i'w gofio yw mai nid barn ar ysgol yw ei chategori lliw, ond mecanwaith syml i bennu'r nifer o ddiwrnodau cymorth sydd angen arni oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau.

# Pont droed arbennig



Daeth cerddwyr Cymdeithas Edward Llwyd ar draws y bont droed yma ar un o'u teithiau diweddar. Mae ar y llwybr cyhoeddus sy'n cysylltu'r lôn rhwng Penrhyn-coch a Froginin (ar y chwith cyn cyrraedd Penybanc) â lôn Tynpynfach ac yn pontio'r afon Stewi. Roeddynt yn chwilfrydig ynglŷn â'r marciau ar y garreg ; ymddengys eu bod yn farciau crych sydd i'w gweld weithiau ar greigiau gwaddodol.

Gellir gweld manylion Cymdeithas Edward Llwyd gan gynnwys y rhaglen teithiau cerdded ar wefan y Gymdeithas:-

www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk/aCELL/

Ceir ffurflen ymaelodi yna neu cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth Alan Williams ar 02920 752382.

# Tîm plismona

Y mae Tîm plismona ardal wledig Aberystwyth yn mynd ati i ail sefydlu cynllun gwarchod ffermydd yn ardal Gogledd Ceredigion. Amcanion y cynllun yw:

- i leihau'r cyfleodd i gyflawni troseddau,
- i gryfhau'r ysbryd gymunedol a chael pawb i gydweithio er mwyn diogelu eu heiddo,
- i wella cyswllt rhwng y gymuned amaethyddol a'r heddlu
- i roi gwybod am ddigwyddiadau amheus pan fyddant yn digwydd.

Partneriaeth yw cynllun gwarchod ffermydd rhwng y gymuned ffermio a'r heddlu. Mae'n hyrwyddo gwyliadwraeth a chyswllth, nid yn unig rhwng y ffermwyr ond a'r heddlu hefyd.

Os hoffech mwy o fanylion ynglŷn â'r cynllun, cysylltwch ag eich Cwnstabl Gwledig lleol neu eich Swyddogion Cefnogi Cymunedol yn Orsaf Heddlu Aberystwyth ar 101 neu danfonwch e-bost at:
PC 980 Manon CURLEY ar manon.curley@dyfed-powys.pnn.police.uk
SCC 8067 David GOFFIN ar david.goffin@dyfed-powys.pnn.police.uk
SCC 8072 Chris TIPPER ar chris.tipper@dyfed-powys.pnn.police.uk



# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Tachwedd, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dai Mason, yn y gadair. Nid oedd y Clerc yn gallu bod yn bresennol oherwydd y tywydd, felly cytunodd yr Is-Gadeirydd, Eirian Reynolds, i gymryd y cofnodion.

Materion yn codi: Y tir gyferbyn â Horeb - roedd y Cyngor Sir yn mynd i astudio pa mor ymarferol fyddai creu man parcio, a phe byddai'r ateb yn gadarnhaol, yna byddai amseriad y cynllun yn dibynnu ar fod cyllid ar gael. Cynigiodd Shân James y dylid gwneud y gwaith law yn llaw â datblygu'r cae gerllaw ar gyfer tai, ac y dylid ymestyn y llwybr hyd at Fryntirion. Cytunwyd i annog y Cyngor Sir i wneud hyn. Meinciau newydd - nid oedd PATRASA wedi cysylltu ag Eirian Reynolds eto ynglŷn â gosod y meinciau. Parcio ger Maes Seilo, tyllau ger Troed-y rhiw - dim datblygiadau. Pyst du-a-gwyn ger Pant-drain - y Clerc i atgoffa'r Cyngor Sir am hyn.

Sul y Cofio - diolchodd y Cadeirydd i Trefor Davies a'r Clerc am eu cymorth gyda'r trefniadau, a hefyd i'r heddlu. Gŵyl Coed Nadolig yr Eglwys - diolchwyd i Edwina Davies, Shân James a Gwenan Price am baratoi addurniadau ar gyfer coeden y Cyngor. Y llwybr ger bwthyn Glanstewi - roedd Eirian Reynolds wedi ymweld â'r fan ac roedd canghennau yn tyfu'n isel dros y llwybr, a phenderfynwyd eu torri. Roedd y llwybr o Lanstewi i'r bont yn wlyb a mwdlyd iawn, a chytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir am hyn.

Cyfarfodydd a fynychwyd: roedd y Cadeirydd wedi bod yng Nghyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru; y prif siaradwr oedd Leighton Andrews AC, y Gweinidog oedd yn gyfrifol am lywodraeth leol. Roedd wedi sôn am effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar gynghorau cymuned. Roedd hefyd wedi bod mewn cyfarfod yn IBERS lle yr eglurwyd sut y byddai'r buddsoddiad o £45 miliwn yn cael ei wario ar gampws Gogerddan.

Unrhyw faterion eraill: roedd Edwina Davies wedi derbyn cwynion am y llwybr o Ger-y-llan i sgwâr y pentref, yn enwedig lle'r oedd y llwybr yn croesi'r ffordd. Roedd y golau yn y nos yn annigonol. Addawodd Dai Mason holi swyddogion y Cyngor Sir.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Rhagfyr, felly cynhaliwyd cyfarfod nesaf y Cyngor nos Fawrth, 19 Ionawr, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Is-Gadeirydd, Eirian Reynolds, yn y gadair. Roedd pedwar aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol gan gynnwys Dafydd Ifans a Mr a Mrs Alun James. Nid oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol gan ei fod newydd ddioddef y brofedigaeth o golli'i fam.

Materion yn codi: Sul y Cofio - cytunwyd y dylai'r Cyngor osod torch o babiau gwyn yn ogystal ag un o rai cochion yn y seremoni yn 2016. Hefyd trafodwyd pa bryd y dylid mynd â'r torchau o'r gofeb; cytunwyd na ddylid eu gadael yno am fisoedd bwygilydd, ac y dylid mynd â nhw oddi yno cyn yr haf. Nid oedd dim i'w adrodd am y materion eraill oedd yn codi.

Pant ger stad Glan-ffrwd - roedd y Cyngor wedi tynnu sylw'r Cyngor Sir at y pant yn y llwybr ger Glan-ffrwd cyn hyn. Yn ddiweddar roedd cwymp wedi bod ac roedd twll mawr wedi ymddangos yng nghanol y llwybr. Roedd y Cyngor Sir i fod i ddelio â'r mater.

Gohebiaeth - roedd cais wedi dod oddi wrth y Cyngor Sir i ni drafod lleoliad posib i'r Eisteddfod Genedlaethol a fyddai'n debyg o ymweld â'r sir yn 2020. Roedd y Cyngor yn sicr nad oedd tir addas ar gyfer y gofynion yng nghymuned Trefeurig! Nid oedd gan y Cyngor farn gref ym mhle yn y sir y dylid cynnal yr eisteddfod.

Archebiant ar gyfer 2016/17 - cytunwyd y dylid cadw at yr archebiant ('precept') presennol o £13,000.

Ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol: cytunwyd i drafod y rhain ym mis Chwefror.

Cynllunio: trafodwyd cais Mrs Mearina James i godi tŷ yn gysylltiedig â'r busnes amaethyddol roedd hi'n ei redeg ar y tir rhwng Gwelfor a Rhandir, ar y ffordd allan o'r pentref i gyfeiriad Cefn Llwyd. Ynghyd â'r cais roedd llythyrau o gefnogaeth gan fusnesau lleol oedd yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Doedd y Cyngor Sir ddim wedi anfon y cynllun busnes ymlaen i'r Cyngor Cymuned oherwydd eu bod o'r farn fod yr wybodaeth yn gyfrinachol, ond roedd Mrs James yn fodlon i'r Cyngor gael ei weld. Roedd llythyr o wrthwynebiad i'r cais wedi dod gan Dafydd a Rhiannon Ifans, Rhandir. Ar ôl i Mrs James gael cyfle i ateb unrhyw gwestiynau, gofynnwyd i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra byddid yn trafod y cais. Roedd dwy farn ar y Cyngor. Roedd rhai yn credu y dylai'r Cyngor gefnogi cais Mrs James; roedd eraill o'r farn fod y math yma o gais, cais am dŷ yn gysylltiedig â menter amaethyddol, yn un technegol, a bod cyfarwyddyd manwl pa bryd y dylid caniatàu cais o'r fath (y manylion i'w cael yn TAN 6 y Llywodraeth). Felly dylid dilyn cyngor y swyddogion proffesiynol yn y mater hwn. Cafwyd pleidlais ar y mater, a thrwy fwyafrif cytunwyd i adael y mater i'r Cyngor Sir a'i swyddogion.

Unrhyw fater arall: dywedodd Jeff Pyne ac Edwina Davies ei bod yn ymddangos fod nifer o geir sgrap a cheir segur ar dir ger Ardwyn, Pen-bont Rhydybeddau. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a oedd busnes yn cael ei redeg yno. Tyllau yn y ffordd - dywedodd Mel Evans fod tyllau mawr yn y ffordd rhwng Cwmhwylog a Chwm Canol, ac ar y ffordd o Lwyn, Bancydarren i Gwmerfyn. Roedd rhai o'r tyllau hyn yn wirioneddol beryglus. Hefyd dywedodd Mel Evans fod angen clirio'r gwteri wrth ymyl Capel Salem, gan fod dŵr yn llifo i mewn i Dan-ffordd. Dywedodd Eirian Reynolds fod dŵr yn casglu ar y ffordd mewn un man yng Nger-y-llan. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir ym mhob un o'r achosion hyn.



# Colofn Enwau Lleol





Ar restr Map Degwm plwyf Llanbadarn Fawr (a luniwyd yn yr 1840au) cofnodir cae o'r enw *Cae Nantnidfa* ar dir fferm Clawddmelyn, Penrhiwnewydd (rhif 315 ar y map).


Rwy'n ddiolchgar i Daniel Jones, Clawddmelyn, am ei barodrwydd i ddangos y cae i mi (er nad yw'r enw wedi goroesi). Mae nant fechan yn tarddu ar ei ganol, sy'n ein harwain yn naturiol i gredu mai hon oedd *Nantnidfa*, ond tybed sut y derbyniodd ei henw.

Ymddengys mai cywasgiad yw'r elfen olaf o'r gair *neidfa*. Rhestrir yr ystyron 'naid, llam, neidiad' i'r gair hwnnw yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*. Gan fod y nant, ar ôl gadael y cae, yn disgyn dros ei phen drwy geunant serth cyn ymuno ag Afon Stewi, mae'n rhesymol tybio mai disgrifiad yw'r enw o'r dŵr yn neidio neu'n llamu dros y dibyn.



Nantnidfa yn disgyn drwy'r ceunant serth

Mae'n werth dwyn cymhariaeth ag enghraifft debyg yng ngogledd Brycheiniog. Mewn cyfres o benillion sy'n disgrifio Afon Gwesyn o'i tharddle ar fynydd Drygarn Fawr i'w haber i Afon Irfon, gan enwi llu o leoedd ar ei thaith, enwir llecyn o'r enw *Neidfa* yn agos at ei tharddiad.




Detholiad o gyfres o benillion i Afon Gwesyn yn llawysgrifen Dai Jones, Siop Abergwesyn

Yn ôl y diweddar Dai Jones, Siop Abergwesyn (gŵr a dreuliodd ran gyntaf ei oes yn bugeilio'r mynydd-dir hwn cyn troi'n ddiweddarach at goedwigo'r un tir i'r Comisiwn Coedwigaeth), enw ar gwymp dŵr ydoedd.

Er bod y gyfrol *The Place-Names of Cardiganshire* (t. 579) yn cofnodi ffurf wahanol ar yr un enw, sef *Neiddfa*, wedi ei chodi ar lafar gan Evan Davies, Marchnant, Llanwrthwl, mae'n ddiamheuol mai *Neidfa* yw ffurf Dai Jones.


**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Taith gerdded y mis

## Pont Llanafan i Grogwynion

**Man dechrau**: Ochr y ffordd gyferbyn a mynediad cware'r Hafan
**Map**: OS Explorer 213. GR 736885.
**Pellter**: 4.5 milltir. Y feidr yn hawdd ond y llwybr yn fwy trafferthus.




Wrth ddechrau sylwch ar safle hen gapel Horeb (Capel Sbaen) ar y chwith ac wedyn troi lawr y feidr ar eich dde. Ar ôl tua hanner milltir fe welwch gware bach ar ochr chwith y ffordd. Dyma'r lle i ddechrau dringo dros Cefn yr Esgair a dros y ffens ac i lawr at adeiladau Camddwr. Nid ywr llwybr yn glir a dylid defnyddio cwmpawd er mwyn mynd i'r cyfeiriad cywir. O Camddwr cerdded 'nôl ar hyd y ffordd. Os nad ydych yn hapus i fynd dros Cefn yr Esgair ewch i fyny at Camddwr ac yn ôl ar hyd y feidr.

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Pennau
**Ar agor Mawrth – Sadwrn**
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

## Ysgol Craig yr Wylfa

**Lles Disgyblion**
Mae lles y plant yn parhau i gael sylw mawr gennym yn yr ysgol. Dros yr wythnosau diwethaf trefnwyd ymweliad gan Pc Alun i drafod pwysigrwydd defnyddio'r we yn gywir a'r peryglon o chwarae gêmau anaddas.

**Gala Nofio**
Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y mis. Buodd Harvey, Jac a Reece o Craig yr Wylfa yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i Reece a gyrhaeddodd y gala derfynol. Da iawn chi.

**Cinio Henoed**
Braf iawn oedd cael croesawu aelodau Cymdeithas Henoed y Borth yn ôl i'r ysgol i ymuno â ni i gael cinio yn yr ysgol. Diolch yn fawr i Wendy am goginio'r bwyd blasus ac i'r plant am helpu ar y dydd. Edrychwn ymlaen at eu hymweliad mis nesaf.

**Gwyddoniaeth**
Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad â Phrifysgol Aberystwyth er mwyn mynychu gweithdy gwyddonol o'r enw 'Egni' a gynlluniwyd gan Mr AJS Williams MBE. Dangoswyd llawer o arbrofion diddorol iawn a denodd sylw pob un o'r plant. Diolch yn fawr i Brifysgol Aberystwyth am y gwahoddiad ac am y cyfle arbennig i ddysgu mwy am wyddoniaeth.








Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion: Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Harddwch Siriol Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

Siop
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

## Ysgol Pen-llwyn

**Addysg Gorfforol/Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i'r sawl wnaeth lwyddo yng ngala nofio'r cylch yn ddiweddar. Llwyddodd nifer i nofio yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau i'r criw hyn. Da iawn chi.

**Croesi'r ffordd!**
Mae disgyblion blwyddyn 1 wedi dechrau ar eu hyfforddiant gyda Mrs Efanna Lloyd o Gyngor Ceredigion ar reolau diogelwch y ffordd. Bydd yn dysgu y disgyblion am bwysigrwydd diogelwch wrth groesi a cherdded ar ochr y ffordd.

**Eisteddfod Ysgol**
Bydd ein heisteddfod ysgol ar Chwefror 23ain yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Mae'r Eisteddfod yn agored i bawb a bydd croeso i chi ymuno â ni am 1:00y.p. Dewch i fwynhau gwledd gan ddisgyblion yr ysgol.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu **hedyddcunningham@live.co.uk**

## Ail agor Gorsaf Bow Street

**Annwyl Olygydd,**
Rwy' wedi bod yn rhan o sawl menter gyda'r Cyngor ond dyma'r un fwya' cyffrous a phositif hyd yn hyn.

Mae'r sôn am orsaf drenau newydd yn Bow Street yn newyddion cyffrous iawn ac rwy'n falch iawn ein bod ni wedi gallu symud ymlaen gyda'r trafodaethau ac wedi derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn gweithio ar gynllun a fydd yn adnodd newydd sbon a gwerthfawr i ardal Trefeurig a'r cylch.

Mi fydd y cynllun yn cynnwys gorsaf drenau, a maes parcio 'park and ride' a fydd yn addas ar gyfer pob math o ddibenion - mi fydd yn lle i gymudwyr mewn ceir tuag at Aberystwyth barcio a dal bws neu drên i'r dre' heb orfod poeni am edrych am le i barcio, mi fydd hefyd yn lle delfrydol i bobl o'r ardaloedd y tu allan i Aberystwyth ddod i ddal y trên (gan fod cyn lleied o le parcio yng ngorsaf Aberystwyth), ac mi fydd hefyd wrth gwrs yn medru ateb gofynion safle Gogerddan a fydd mewn ychydig yn denu mwy a mwy o fyfyrwyr o Aberystwyth - ac mi fydd y trên yn fodd delfrydol a hawdd i gyrraedd.

Fel rhan ychwanegol o'r cynllun mae trafodaethau am godi llwybr beicio newydd o safle arfaethedig yr orsaf drenau i mewn i ganol safle Gogerddan ac ymhellach.

Mi fydd y datblygiad yma'n un sylweddol iawn i fro'r *Tincer* ac rwy'n falch o fod yn rhan o'r trafodaethau. Rhaid hefyd diolch i Grŵp Gweithredol Rheilffyrdd y Cambrian sydd wedi gweithio'n galed dros y 3 blynedd diwetha' tuag at agor drysau at ddatblygiadau sylweddol ar hyd y lein - a'r angen am orsaf yn Bow Street yn un o'r anghenion sylweddol yma. Er fod yna sôn am ymgyrchu ers blynyddoedd dros fwy o drenau ar y lein, a gorsaf yn Bow Street y Grŵp Gweithredol sydd wedi medru llwyddo i ddenu sylw'r Gweinidog Edwina Hart o'r diwedd.

Dyma obeithio y bydd y cynlluniau'n symud ymlaen yn bositif ac yn fuddiol i drigiolion ardal *y Tincer* a thu hwnt.

**Dai Mason**
**Cynghorydd Sir, Plwyf Trefeurig**



Gorsaf Bow Street 1962 (caewyd ar 14 Mehefin 1965); trwyddedwyd i'w ailddefnyddio dan y Creative Commons Licence.


SIOP GYMRAEG EICONIG YNG NGHANOL TREF ABERYSTWYTH

SIOP Y PETHE

LLYFRAU | CERDDORIAETH | CARDIAU | CREFFTAU | ANRHEGION

**DAN REOLAETH NEWYDD!** Gwyliwch mas am nifer o ddatblygiadau cyffrous yn fuan!

10% I FFWRDD
* Dewch a'r hysbyseb gyda chi i hawlio'r gostyngiad *

**CYNNIG AGORIADOL!**
Mae Aled a Dafydd yn falch o gynnig 10% o ostyngiad ar BOPETH yn y siop i holl ddarllenwyr **Y Tincer** yn ystod Chwefror a Mawrth 2016!

SIOP Y PETHE,
3 SGWAR OWAIN GLYNDWR,
ABERYSTWYTH,
CEREDIGION
SY23 2JH

WWW.SIOPYPETHE.CYMRU
01970 617 120

CEWCH GROESO CYMREIG BOB AMSER YN SIOP Y PETHE!

# Ysgol Penrhyn-coch

**Addysg Gorfforol/Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i'r sawl wnaeth lwyddo yng ngala nofio'r cylch yn ddiweddar. Llwyddodd nifer i nofio yn rownd derfynol. Llongyfarchiadau i'r criw hyn a fu'n cystadlu yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd. Da iawn chi.

**Gweithdy Celf a chrefft yr Urdd**
Mwynheuodd tair o ferched yr Ysgol lawr yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog mewn gweithgareddau amrywiol fel creu collage, peintio a chreu darn o boteri!


Da iawn chi Ffion Curley, Gwenan Jenkins ac Annie May am fynychu'r diwrnod.

**Ymweliad a stori**
Mwynheuodd plant y cyfnod sylfaen stori a sgwrs gan y Parchedig Lyn Dafis. Trafodwyd prif negeseuon stori Sacheus; roedd gan bawb rhywbeth i ddweud wrth Mr Dafis! Diolch iddo am ymweld â ni yn aml.



**Croesi'r ffordd!**
Mae disgyblion blwyddyn 1 wedi dechrau ar eu hyfforddiant gyda Mrs Efanna Lloyd o Gyngor Ceredigion ar reolau diogelwch y ffordd. Maent i gyd wrth eu boddau yn mynd o gwmpas y pentref bob prynhawn Dydd Llun.

**Eisteddfod Ysgol**
Bydd ein heisteddfod ysgol ar Chwefror 25ain. Mae croeso i chi ymuno â ni am 1:00yp. Y beirniaid eleni fydd Mrs Eirian Dafis, Bow Street (Llefaru) a Mrs Eirwen Hughes, Pen-cwm, Penrhyn-coch (Cerddoriaeth). Croeso cynnes i bawb.






**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

***IRON M.A.M.***
**7.30, nos Wener, 26 Chwefror**
Perfformiad theatrig gafaelgar sy'n archwilio'r cyswllt rhwng adar angau, rhyfela o bell a gemau fideo. Tocynnau: £4.

***CROSSLIGHT***
**7.30, nos Fercher, 2 Mawrth**
Drama ar gyfer y Grawys gan Riding Lights. Cyfuniad arbennig o theatr ac addoliad sy'n canolbwyntio ar hanes Simon Pedr. Tocynnau: £6.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

# Ysgol Rhydypennau

**Dathlu'r flwyddyn newydd ym mlwyddyn 2**

Ar Ddydd Iau, Ionawr 25ain, daeth Mr Mihangel Morgan a Ffebi'r tshiwawa i'r dosbarth i ddathlu'r Hen Galan gyda ni. Clywon ni stori gan Mihangel am y Fari Lwyd gyntaf un. Dangosodd Mihangel fodel bach iawn o'r Fari oedd e wedi prynu gan y crochenydd Meri Wells o Fachynlleth. Hefyd gwelon ni lun o'r Fari gan yr artist William Browne. Roedden ni wrth ein bodd yn cwrdd â Mihangel a'r ci bach del.

Hoffa'r ysgol hefyd ddiolch i Mr Mathew Clubb am ddod â hanes y flwyddyn newydd yn fyw i blant blwyddyn 2.

**Gwyddoniaeth**

Yn ddiweddar fe aeth blwyddyn 5 a 6 i'r Brifysgol yn Aberystwyth i ddarlith ar wyddoniaeth. Pwrpas y ddarlith oedd sicrhau diddordeb y plant yn y pwnc a rhoi cyfle iddynt ymuno mewn arbrofion ymarferol ar egni a grym. Cafwyd bore difyr iawn.

**Rasus Rhydypennau**

Trefnodd pwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol 'Noson Rasus' yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar. Gyda chymorth technoleg a brwdfrydedd rhieni a phlant yr ysgol cafwyd noson lwyddiannus tu hwnt o ran hwyl a mwynhad heb anghofio codi £250 at goffre'r ysgol. Gobeithio y gellir cynnal nosweithiau tebyg eto yn y dyfodol. Yn ystod y cystadlu; Enid Evans blwyddyn 1 ddisgleiriodd gyda'i dewisiadau doeth; mae'n amlwg fod ganddi lygad am geffyl da! Diolch i'r pwyllgor am drefnu ac yn enwedig i Jon a Chris am eu gwaith hanfodol cyn ac yn ystod yr achlysur.

**Diwrnod ar gyfer newid**

Cynhaliwyd 'Diwrnod UNICEF ar gyfer Newid' ar y 5ed o Chwefror. Cafodd y plant wisgo dillad lliwgar ar y dydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r achlysur a chodwyd swm sylweddol er mwyn helpu plant tlawd dros y Byd.

**Pêl-rwyd**

Ar y o 21ain o Ionawr cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden. Chwaraeodd y tîm yn wych gan guro timoedd da iawn i gyrraedd y rownd derfynol; yno, yn erbyn ysgol Plas-crug a'r sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y gêm bu'n rhaid chwarae amser ychwanegol, ond colli oedd yr hanes mewn gêm gyffrous ac agos iawn. Hen dro!

**Clwb Cant**

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â Chlwb Cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r Clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum can punt. Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn: 1af-£25, 2il-£15, 3ydd-£10.

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: **www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk** @YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.


Bore o wyddoniaeth.


Mr Mihangel Morgan a Blwyddyn 2


Y Tîm Pêl-rwyd


Enid Evans a Mr Havard ar noson Rasus.

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n brysur yn lliwio – dyma'r enwau: Siôn Davies, Llangeitho; Megan, Capel Bangor; Ffion Wynne, Dolgellau; Gwen, Penrhyn-coch; Beca Davies, Bont-goch; Lleucu ap Llywelyn, Capel Madog; Anna Jen Dunne, Bont-goch.

Dy lun di, Megan, ddaeth o'r het yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr, a diolch i bawb anfonodd eu lluniau lliwgar.

Mae sawl peth pwysig yn digwydd yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae'n gyfnod **eisteddfodau**, ac mae hefyd yn gyfnod gêmau **rygbi**, a chyfle i bawb floeddio "Cymru!" dros y lle. Gobeithio eich bod am ddathlu **Diwrnod y Llyfr** ar 3 Mawrth, ac y byddwch yn cael trafod llyfrau o bob math. Digwyddiad pwysig iawn arall, wrth gwrs, yw **Dydd Gŵyl Dewi**. Roedd Dewi Sant yn byw amser maith yn ôl, yn y chweched ganrif. Mae sôn amdano'n siarad â thorf fawr yn Llanddewibrefi. Ond nid oedd pawb yn medru ei weld na'i glywed. Beth wnaeth Dewi? Rhoi hances ar y llawr, sefyll arni ... a chododd bryn o dan ei draed. Gallai pawb ei weld wedyn! "Gwnewch y pethau bychain" oedd geiriau enwog Dewi – neges bwysig iawn i bob un ohonon ni.

Dyma bos i chi. Beth am newid trefn y llythrennau a dod o hyd i eiriau o fyd rygbi?

**myrsg** **dseig**

**tpanec** **illenll**

**pwnca**

Hefyd y mis hwn, lliwiwch lun Dewi Sant a'i anfon i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Gŵyl Ddewi (Mawrth 1af). Pob hwyl ar lliwio!



Megan



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
**07968 728470**
**01970 820375**

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009